# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu


**Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.**

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Adran Gwaith
a Phensiynau

# Lwfans Ceisio Gwaith

Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth a ddewiswyd o **www.gov.uk** ar 2 Mai 2018. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar gael ar-lein. Mae'r daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig ac ni ddylid dibynnu arno fel datganiad llawn o'r gyfraith yn y maes hwn.




## Cynnwys


Sut mae'n gweithio 3

Cymhwyster 5

Sut i wneud cais neu ail-wneud cais 7

Eich cais am Lwfans Ceisio Gwaith 10



Argraffwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio'r testun a gymerwyd o **www.gov.uk** ar 2 Mai 2018.




© Hawlfraint y Goron.



ISBN 978-1-78659-062-6

**DWP20W** (Mai 2018

**Codau QR**

Dyma godau bar sgwâr sy'n agor gwefan benodol, gan arbed i chi deipio cyfeiriadau gwe hir.

Gallwch gael ap am ddim i sganio codau QR ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar.

## Sut mae'n gweithio

www.gov.uk/jobseekers-allowance

Gallwch wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) i'ch helpu tra rydych yn chwilio am waith.

### Yr hyn a gewch

Mae uchafswm y gallwch ei gael – ond mae faint y mae gennych hawl iddo yn dibynnu ar bethau fel eich oedran, incwm a chynilion.

Defnyddiwch y cyfrifiannell budd-daliadau i wirio faint o Lwfans Ceisio Gwaith y gallwch ei gael, a sut y bydd eich budd-daliadau eraill yn cael eu heffeithio . Cewch wybod mwy yn www.gov.uk/benefits-calculators.

| Oed | Swm wythnosol o Lwfans Ceisio Gwaith |
|---|---|
| 18 i 24 | hyd at £57.90 |
| 25 neu'n hŷn | hyd at £73.10 |
| Cyplau (y ddau dros 18 oed) | hyd at £114.85 |

Ni allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a Chredyd Cynhwysol ar yr un amser.

### Sut y cewch eich talu

Fel arfer mae taliadau'n cael eu gwneud bob 2 wythnos.

Mae pob budd-dal, pensiwn a lwfans fel arfer yn cael eu talu i mewn i'ch cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd.

### Pa fath o Lwfans Ceisio Gwaith a gewch

Gallwch gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar:

- eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol dosbarth
- eich incwm a chynilion chi a'ch partner

### Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Yswiriant Gwladol

Mae yna 2 fath o Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol dosbarth:

- Lwfans Ceisio Gwaith 'dull newydd'
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau

### Lwfans Ceisio Gwaith 'dull newydd'

Gallwch wneud cais am JSA dull newydd os ydych yn byw mewn ardal Credyd Cynhwysol gwasanaeth llawn.

Os ydych yn byw yn unman arall, gallwch ond gwneud cais os yw un o'r canlynol yn wir:

- rydych eisoes yn hawlio Credyd Cynhwysol
- rydych wedi hawlio Credyd Cynhwysol yn y 6 mis diwethaf a daeth eich taliadau i ben oherwydd eich enillion

Ni fydd incwm a chynilion eich partner yn effeithio ar faint o Lwfans Ceisio Gwaith dull newydd a gewch.

Gallwch gael Lwfans Ceisio Gwaith 'dull newydd' ar ei ben ei hun neu ar yr un pryd â Chredyd Cynhwysol. Os ydych yn cael y ddau, bydd eich Credyd Cynhwysol yn cael ei leihau gan y cyfanswm y cewch ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith.

### Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau

Gallech gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau os ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 yn ystod y 2 flynedd dreth cyn y flwyddyn budd-dal bresennol.

Gall Credydau Yswiriant Gwladol gyfrif am ran o hyn.

Mae blwyddyn fudd-dal yn dechrau ar y dydd Sul cyntaf ym mis Ionawr.

Gallwch gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau hyd yn oed os yw eich partner yn gweithio neu os oes cynilion gennych.

Bydd eich enillion a'ch pensiwn yn effeithio'r cyfanswm Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau y byddwch yn ei gael.

Ni allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau os nad ydych erioed wedi gweithio.

### Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm

Gallech gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm os yw'r canlynol yn berthnasol:

- rydych yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd
- mae eich partner (os oes gennych un) yn gweithio llai na 24 awr yr wythnos ar gyfartaledd

- mae gennych chi a'ch partner £16,000 neu lai mewn cynilion rhyngoch chi

Os nad ydych erioed wedi bod mewn gwaith gallwch dim ond gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm.

Ni allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a Chredyd Cynhwysol ar yr un amser.

## Cymhwyster

www.gov.uk/jobseekers-allowance/eligibility

Gallech gael Lwfans Ceisio Gwaith os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- rydych yn 18 oed neu'n hŷn (ceir rhai eithriadau os ydych yn 16 neu 17 oed)
- rydych o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth
- nad ydych mewn addysg llawn amser
- rydych yn byw yn yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban
- eich bod ar gael i weithio
- eich bod wrthi'n chwilio am waith
- eich bod yn gweithio llai na 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd

Mae'r rheolau yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon.

Defnyddiwch y cyfrifiannell budd-daliadau i weld a allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith. Cewch wybod mwy yn **www.gov.uk/benefits-calculators**

### Pobl 18 i 19 oed

Fel arfer ni allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith os bydd eich rhieni'n cael Budd-dal Plant ar eich cyfer. Os ydych wedi gadael addysg yn ddiweddar, ni fyddwch yn gallu cael Lwfans Ceisio Gwaith nes i'ch rhieni roi'r gorau i gael Budd-dal Plant ar eich cyfer. Gallech gael Cymhorthdal Incwm yn lle hynny.

Os ydych yn 18 oed neu drosodd ac yn byw gyda phartner sy'n 18 oed neu drosodd, gallwch wneud cais gyda'ch partner.

## Myfyrwyr llawn amser

Os ydych yn astudio am lefel A neu gymhwyster cyfatebol, ni allwch fel arfer gael Lwfans Ceisio Gwaith hyd nes eich bod wedi rhoi'r gorau i astudio ac mae eich rhieni wedi stopio cael Budd-dal Plant drostoch. Mae taliadau Budd-dal Plant yn stopio ar ôl y diwrnod olaf o fis Chwefror, Mai, Awst neu Dachwedd (p'un bynnag sy'n dod gyntaf).

### Os ydych yn astudio am gymhwyster gradd

Os oes plant gennych, efallai y gallech hawlio JSA yn ystod gwyliau'r haf.

## Myfyrwyr rhan-amser

Efallai y gallwch gael Lwfans Ceisio Gwaith tra'n astudio rhan-amser (gan gynnwys Cyrsiau rhan-amser y Brifysgol Agored) ar yr amod:

- y byddwch yn cymryd swydd os caiff ei chynnig i chi
- eich bod yn gwneud popeth y gallwch i chwilio am waith, fel y cytunwyd gyda'ch anogwr gwaith

## Newydd ddychwelyd neu wedi dychwelyd i'r DU yn ddiweddar

Efallai y gallech gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm os gallwch brofi rydych wedi bod yn byw yn y DU, Ynys Manaw, Gweriniaeth Iwerddon neu Ynysoedd y Sianel am 3 mis cyn i chi wneud cais a'ch bod naill ai:

- yn ddinesydd y DU sydd wedi dychwelyd yn ddiweddar o dramor
- yn wladolyn yr AEE a bod gennych yr hawl i fyw yn y DU, Ynys Manaw, Gweriniaeth Iwerddon neu Ynysoedd y Sianel

## Sut i wneud cais neu ail-wneud cais

www.gov.uk/jobseekers-allowance/how-to-claim

Fel arfer gallwch wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith ar-lein.

Os ydych eisiau cael JSA 'dull newydd' ac nid ydych yn byw mewn ardal Credyd Cynhwysol 'gwasanaeth llawn', mae'n rhaid i chi wneud cais dros y ffôn yn lle hynny.

### Ffyrdd eraill o wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith 'dull newydd'

Os ydych yn byw y tu allan i ardal 'gwasanaeth llawn' ac rydych eisoes yn hawlio Credyd Cynhwysol, ffoniwch:

Ffôn: 0800 0121 888
Llinell Saesneg: 0800 328 9344
Rhif ffôn testun: 0800 328 1344

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

### Ar ôl i chi wneud eich cais

Byddwch yn cael neges destun neu alwad ffôn o fewn 2 ddiwrnod gwaith i drefnu cyfweliad JSA yn eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol.

Ni fyddwch yn cael JSA os nad ydych yn mynd i'r cyfweliad.

### Gwneud cais gyda'ch partner (cais ar y cyd)

Mae'n rhaid i chi wneud cais ar y cyd gyda'ch partner os nad oes yr un ohonoch yn gyfrifol am blentyn.

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith os nad ydych yn siwr am wneud cais ar y cyd.

### Ailhawlio Lwfans Ceisio Gwaith ('ail-wneud cais yn gyflym')

Gallwch wneud cais gyflymach ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith ar-lein os ydych wedi cael Lwfans Ceisio Gwaith yn y 26 wythnos diwethaf.

Bydd yn rhaid i chi ddechrau ar y cais eto. Dylai gymryd tua 20 munud.

Bydd dal yn rhaid i chi fynychu cyfweliad mewn swyddfa Canolfan Byd Gwaith i gael Lwfans Ceisio Gwaith.

**Os ydych yn ail wneud cais am 'JSA dull newydd'**

Os ydych wedi stopio cael Lwfans Ceisio Gwaith dull newydd, gallwch ei ail hawlio os:

- rydych yn byw y tu allan i ardal gwasanaeth llawn a daeth eich Credyd Cynhywsol i ben yn y 6 mis diwethaf oherwydd bod eich enillion wedi mynd i fyny
- roeddech yn byw mewn ardal gwasanaeth llawn a daeth eich Credyd Cynhwysol i ben am unrhyw reswm, ble bynnag rydych yn byw nawr

Os ydych yn byw mewn ardal Credyd Cynhwysol 'gwasanaeth llawn, gallwch ail hawlio ar-lein.

Os ydych yn byw yn unman arall ac rydych eisoes yn hawlio Credyd Cynhwysol, ffoniwch:

Ffôn: 0800 0121 888
Llinell Saesneg: 0800 328 9344
Rhif ffôn testun: 0800 328 1344

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

**Os na allwch wneud cais ar-lein**

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith os na allwch wneud cais ar-lein. Cewch ragor o wybodaeth yn www.gov.uk/contact-jobcentre-plus.

**Eich cyfweliad Lwfans Ceisio Gwaith**

Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn cysylltu â chi i drefnu eich cyfweliad ar ôl i chi wneud cais.

Bydd angen i chi ddod â phob un o'r canlynol:

- eich P45 (os oes gennych un)
- un 'prif' ddogfen hunaniaeth
- dwy ddogfen hunaniaeth 'eilaidd' – un i brofi eich cyfeiriad a'r llall i brofi eich dyddiad geni

Efallai y bydd angen i chi ddod â dogfennau eraill yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir gennych er mwyn i'r Ganolfan Byd Gwaith wneud penderfyniad ar eich cais.

Gallwch fynd â rhywun gyda chi i'r cyfweliad Lwfans Ceisio Gwaith.

## Llofnodi cytundeb i chwilio am waith (‘Ymrwymiad Hawlydd’)

Yn eich cyfweliad Lwfans Ceisio Gwaith, mae’n rhaid i chi lofnodi cytundeb ynglŷn â pha gamau y byddwch yn eu cymryd i chwilio am swydd. Gelwir hyn yn ‘Ymrwymiad Hawlydd’.

Byddwch chi a’ch anogwr gwaith yn cytuno beth sy’n mynd yn eich Ymrwymiad Hawlydd. Gallai hyn gynnwys:

- beth sydd angen i chi ei wneud i chwilio am waith - er enghraifft cofrestru gydag asiantaethau recriwtio, llunio CV
- faint o oriau sydd eu hangen arnoch i dreulio’n chwilio am waith bob wythnos

Bydd yr hyn yr ydych yn cytuno i wneud yn dibynnu ar bethau fel:

- eich iechyd
- eich cyfrifoldebau yn y cartref
- faint o help syddd eu angen arnoch i chi gael gwaith neu gynyddu eich incwm

Efallai y bydd eich Lwfans Ceisio Gwaith yn cael ei atal os nad ydych yn gwneud yr hyn rydych chi wedi cytuno iddo yn eich Ymrwymiad Hawlydd ac ni allwch roi rheswm da.

## Os ydych yn anghytuno gyda phenderfyniad

Gallwch herio penderfyniad am eich cais. Gelwir hwn yn gofyn am ailystyriaeth orfodol.

## Gwneud cwyn

Gallwch gwyno am y Ganolfan Byd Gwaith os ydych yn anfoldon gyda’r gwasanaeth a gawsoch. Cewch wybod mwy yn
www.gov.uk/complain-jobcentre-plus

## Pryd y gellir atal taliad

www.gov.uk/jobseekers-allowance/further-information

### Eich cais am Lwfans Ceisio Gwaith

Ar ôl i chi wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith, bydd anogwr gwaith eich helpu i wneud cynllun i ddod o hyd i swydd.

Bydd hyn yn eich helpu i:

- cadw cofnod o'r hyn a ddigwyddodd
- profi i'ch anogwr gwaith yr ydych wedi bod yn chwilio am waith

Efallai y bydd eich anogwr gwaith yn dweud wrthych i gymryd rhan mewn rhaglen gyflogaeth, fel y Rhaglen Waith.

### Mynychu'r swyddfa Canolfan Byd Gwaith

Mae'n rhaid i chi fynd i swyddfa'r Ganolfan Byd Gwaith bob pythefnos (neu pan ofynnir) i ddangos sut rydych wedi bod yn chwilio am swydd. Gelwir hyn yn 'llofnodi'.

Mae'n rhaid i chi ddangos i'ch anogwr gwaith yr hyn yr ydych wedi bod yn gwneud i chwilio am waith, ee. prawf o geisiadau am swyddi a chyfweliadau.

Os ydych yn ddioddefwr o drais yn y cartref, gallech gael toriad o hyd at 13 wythnos o chwilio am swydd - siaradwch â'ch anogwr gwaith os ydych angen y cymorth hwn.

### Os bydd eich amgylchiadau'n newid

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith os bydd eich amgylchiadau'n newid, e.e. os byddwch yn dechrau gweithio neu fod eich incwm yn newid. Gallai hyn effeithio ar faint y byddwch yn ei gael.

Ni fydd gwirfoddoli fel arfer yn effeithio ar eich Lwfans Ceisio Gwaith ond dylech roi gwybod amdano cyn i chi ddechrau.

Efallai eich bod yn cyflawni twyll budd-dal os ydych yn dewis peidio rhoi gwybod am newid.

## Pryd y gellir atal taliad

Bydd eich taliadau Lwfans Ceisio Gwaith yn cael eu hatal am gyfnod ('sancsiynu') os nad ydych yn gwneud rhywbeth y mae eich anogwr gwaith neu ddarparwr cynllun cyflogaeth yn gofyn i chi ei wneud - er enghraifft, os ydych wedi:

- peidio â derbyn neu gadw i'ch cytundeb chwilio am waith
- peidio â mynd i'r Ganolfan Byd Gwaith pan ofynnwyd
- gwrthod swydd neu hyfforddiant
- peidio â gwneud cais am unrhyw swyddi y dywedwyd wrthych amdanynt
- peidio â chymryd rhan mewn unrhyw gyfweliadau rydych yn cael gwahoddiad iddynt
- peidio â mynd i unrhyw hyfforddiant a drefnwyd ar eich cyfer neu gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth
- gadael eich swydd neu hyfforddiant diwethaf heb reswm da neu oherwydd eich ymddygiad

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith cyn gynted â phosibl os bydd unrhyw un o'r rhain yn berthnasol i chi. Efallai y byddwch yn gallu cadw eich taliad os bydd gennych reswm da.

Cewch wybod pa mor hir y bydd eich taliad yn cael ei atal. Gallai fod rhwng 4 wythnos a 156 wythnos (tua 3 blynedd).

## Os caiff eich taliad Lwfans Ceisio Gwaith ei atal

Os bydd eich taliad yn cael ei atal, dylech barhau i chwilio am waith. Gall eich taliad budd-dal gael ei atal am gyfnod hirach os na wnewch hynny.

Os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad i atal y taliad, gallwch ofyn i ni ail edrych ar y penderfyniad gelwir hyn yn 'ailystyriaeth orfodol'. Gallwch apelio i'r Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant.

Dylech barhau gydag unrhyw hawliad Lwfans Ceisio Gwaith nes bod yr anghydfod wedi'i ddatrys.

## Os ydych yn hawlio Budd-dal Tai neu Ostyngiad Treth Cyngor

Dylech gysylltu â'ch cyngor lleol ar unwaith. Byddant yn dweud wrthych beth i'w wneud er mwyn parhau i gael cefnogaeth.

**Os yw eich hawliad wedi dod i ben**

Efallai y bydd eich cais Lwfans Ceisio Gwaith yn dod i ben os nad ydych ar gael ar gyfer neu wrthi'n chwilio am waith. Gallwch wneud cais eto ar unwaith, ond bydd eich taliadau'n cael eu hatal am gyfnod o naill ai:

- 4 wythnos os mai dyma'r tro cyntaf i'ch hawliad ddod i ben
- 13 wythnos os yw hawliad blaenorol wedi'i dod i ben o fewn y flwyddyn ddiwethaf

**Taliadau caledi**

Gallech gael taliad caledi os yw eich taliadau Lwfans Ceisio Gwaith wedi cael eu hatal. Nid oes rhaid i chi ei ad-dalu.

Mae taliad caledi yn swm llai (fel arfer 60%) o'ch Lwfans Ceisio Gwaith.

**Cymhwyster**

Gallwch gael taliad caledi os na allwch dalu am rhent, gwres, bwyd neu anghenion sylfaenol eraill i chi neu'ch plentyn.

Mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn.

Bydd yn rhaid i chi ddangos eich bod chi wedi ceisio dod o hyd i'r arian o rywle arall, e.e. benthyca gan ffrind neu weithio oriau ychwanegol

**Sut i wneud cais**

Siaradwch â'ch ymgynghorydd Canolfan Byd Gwaith neu anogwr gwaith i gael gwybod sut i hawlio taliad caledi.

**Canolfan Byd Gwaith**

Ffôn: 0800 328 1744
Ffôn testun: 0800 169 0314
Llinell Saesneg: 0800 169 0310

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn www.gov.uk/call-charges

**Os byddwch yn dod o hyd i swydd**

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i roi gorau i'ch hawliad Lwfans Ceisio Gwaith os ydych yn dod o hyd i swydd.